# CYNLLUN DATBLYGU LLEOL AR Y CYD

**Pwyllgor Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd**

**23 Tachwedd 2012**
**Ystafell Bwyllgor 1, Llangefni**

| | |
|---|---|
| **Yn Bresennol:** | **Cyngor Gwynedd** |
| | Cyng. John Wyn Williams - Cadeirydd |
| | Cyng. Gwen Griffith |
| | Cyng. John Pughe Roberts |
| | Cyng. Owain Williams |
| | Cyng. Gethin Williams |
| | |
| | **Cyngor Sir Ynys Môn** |
| | Cyng. R Ll. Hughes - Is Gadeirydd |
| | Cyng. Lewis Davies |
| | Cyng. H. Eifion Jones |
| | Cyng. Clive McGregor |
| | Cyng. Dylan Jones (sefyll i mewn dros Cyng. WJ Chorlton) |
| | Cyng. Kenneth Hughes (eilydd) |
| | **Swyddogion** |
| | Gareth Jones (GJ) Uwch Rheolwr Gwasanaeth Cynllunio (CG) |
| | Jim Woodcock (JRW) - Pennaeth Gwasanaeth Cynllunio (CSYM) |
| | Iwan Evans – Rheolwr Gwasanaeth Cyfreithiol (CG) |
| | Nia Haf Davies (NHD) - Rheolwr Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd |
| | Heledd Jones - Arweinydd Tîm (UPCC) |
| | Eirian Harris – Cymhorthydd Cefnogol Cynllunio (UPCC) |
| | |
| **Ymddiheuriadau:** | Cyng. WJ Chorlton (CSYM) |
| | Cyng. W T Hughes (CSYM) |
| | Cyng. Eric Roberts (CSYM) |
| | Cyng. Dyfrig Jones (CG) |
| | Cyng. Christopher O’Neal (CG) |
| | Cyng. Dafydd Meurig (CG) |
| | Aled Davies (AD) – Pennaeth Adran Rheoleiddio (CG) |

1. **YMDDIHEURIADAU**
   Derbyniwyd ymddiheuriadau fel y nodwyd uchod.

2. **DATGAN BUDDIANT PERSONOL**
   Ni dderbyniwyd datganiad personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

3. **MATERION BRYS**
   Ni chyflwynwyd unrhyw fater brys.

4. **COFNODION**
   Derbyniwyd cofnodion o'r Pwyllgor a gynhaliwyd ar y 7fed o Fedi 2012 fel rhai cywir.

5. **CYNLLUN DATBLYGU LLEOL AR Y CYD GWYNEDD A MÔN DOGFEN HOFF STRATEGAETH DDRAFFT**
   Cyflwynwyd adroddiad gan NHD sydd yn rhoi gwybodaeth am y camau sydd wedi cael eu cymryd hyd yma, yr amserlen arfaethedig a'r ddogfen Hoff Strategaeth oedd yn cael ei gynnwys yn Atodiad 1 i'r adroddiad. Yn ychwanegol i ofyn am gymeradwyaeth i gyflwyno'r ddogfen i sylw Cabinet Cyngor Gwynedd, Pwyllgor Gwaith a Chyngor Sir Ynys Môn, gofynnwyd am hawliau dirprwyedig i wneud man newidiadau cyn mynd i'r pwyllgorau hynny..

   Trafodaethau / Pwyntiau a Godwyd:

   - Rhan 1 - 6 – nodwyd bod y ddau Gyngor wedi cymeradwyo'r prif elfennau yn gynharach yn y flwyddyn
   - Rhan 7 yn rhoi disgrifiad o'r Strategaeth a sut i gyfarch Y Weledigaeth

   - Polisïau:

   **PS1** – dim sylw
   **PS2** – dim sylw
   **PS3** – dim sylw
   **PS4** – dim sylw
   **PS5** – dim sylw

   **PS6**
   Cydnabod bydd yna brosiectau isadeiledd mawr sydd angen cael eu cyfarch ac angen gweithlu.

   **PS7** – dim sylw

   **PS8**
   Cyfeiriwyd at newidiadau i'r system cynllunio sy'n cael eu cyflwyno Lloegr lle mae'n ymddangos fod yna fwriad i lacio polisïau. Gofynnwyd a ydy'n debygol y bydd y Llywodraeth yn

cydnabod pryderon ynglŷn â swyddi a'r economi yn y dyfodol, ac oes modd i lacio polisïau i gyfarch hyn. Cyfeiriwyd at enghreifftiau lle fod yna angen am unedau cychwynnol - rhestr aros yn chwe blynedd, er enghraifft ar gyfer unedau ar safle Felin Fawr, Bethesda.

Mewn ymateb pwysleisiwyd fod rhaid i'r polisïau gydymffurfio gyda pholisïau cenedlaethol. I fynd yn groes i bolisïau cenedlaethol rhaid cael tystiolaeth i gefnogi'r gwyriad neu mae yna beryg o beidio cael cynllun sy'n gadarn.

Mae'r Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd yn gweithio'n agos gyda Gwasanaethau Datblygu'r Economi ac mae'r materion sydd angen eu taclo yn y ddwy ardal wedi eu hadnabod ac mae PS8 yn rhoi fframwaith strategol mewn lle i ymateb i alwadau datblygiad economaidd.

**PS9** – dim sylw

**PS10**
Pwysleisiwyd yr angen i reoli archfarchnadoedd tu allan i drefi oherwydd bygythiad i ganol trefi a'r angen eu lleoli o fewn ffiniau trefi.

**PS11**
Mewn ymateb i gwestiwn ynglyn a statws y lefel twf tai, nodwyd fod y ffigwr tai wedi cael ei gytuno gan y ddau awdurdod. Mewn ymateb i gwestiwn ynglyn a chadernid y ffigwr a'r ffaith bod awdurdodau eraill yn cael eu herio ar y mater yma nodwyd bod y ffigwr yn is na'r hyn mae'r rhagolygon poblogaeth ac aelwydydd yn dangos ar gyfer yr ardal. Edrychwyd ar sawl senario ac mae tabl (tud 33) yn eu dangos. Edrychwyd ar dueddiadau adeiladu'r gorffennol a'r anghenion tebygol yn gysylltiedig â newidiadau yn yr economi leol, sy'n cynnwys datblygiad prosiect adeiladu atomfa newydd Wylfa. Cyfeiriwyd at yr angen i ddarparu llety ar gyfer gweithwyr adeiladu'r atomfa newydd yn Wylfa. Nodwyd ei bod hi'n holl bwysig fod pobl leol yn cael gwaith, gan gynnwys pobl o Wynedd a Meirionydd.

**PS12**
Mewn ymateb i sylw am y ffigwr targed tai fforddiadwy, nodwyd bod adroddiad drafft am yr asesiad hyfywdra tai fforddiadwy wedi ei dderbyn a bydd y ffigwr yn cael ei gynnwys ar ôl y cyfnod ymgynghori.

**PS13** – dim sylw
**PS14** – dim sylw
**PS15** – dim sylw

**PS16**
Nodwyd bod trybini gwynt yn cael eu cynnwys yn y polisi yma. Cadarnhawyd byddai'r polisi'n berthnasol i'r ddwy ardal. Pwysleisiwyd yr angen i edrych ar effaith trybini ar Awdurdodau cyfagos. Nodwyd fod agwedd y ddau Gyngor yn wahanol ar hyn o bryd ac yn wahanol i'r Parc Cenedlaethol. Pwysleisiwyd fod y CDLl ar y Cyd yn cynnig cysondeb. Cytunwyd y dylai'r maes yma fod yn un o'r rhai cyntaf i roi sylw iddo wrth fynd trwy'r broses o baratoi polisïau manwl.

**PS17**
Dim sylw

**PS18**
Dim sylw

**PS19**
Mewn ymateb i sylw ynglyn a geiriad pwynt 2) – Cyfraniad Ariannol drwy Gytundeb 106, cytunwyd i ailedrych ar yr eirfa. : .

**PS20** – dim sylw
**PS21** – dim sylw

**PS22** – dim sylw

**Cwestiynau Cyffredinol**
Holwyd am amserlen y gwaith asesu'r Safleoedd Posib. Esboniwyd fod y gwaith hidlo safleoedd yn mynd yn ei flaen yn unol â'r fethodoleg. Mae gwybodaeth wedi ei rannu gyda rhanddalwyr priodol, e.e. Asiantaeth yr Amgylchedd, Cyngor Cefn Gwlad Cymru, Gwasanaethau Trafnidiaeth, er mwyn ceisio adnabod y safleoedd strategol. Cyfeiriwyd at fwriad i baratoi papur testun a fydd yn dweud y stori ynglyn â'r broses ac yn cyfiawnhau pam fydd rhai safleoedd yn cael eu cynnwys yn y Cynllun Adnau.

**Penderfyniad**

Cymeradwyo'r ddogfen Hoff Strategaeth drafft yn ddarostyngedig i ailedrych ar eiriad pwynt 2 PS19 i'w gyflwyno i bwyllgorau perthnasol y ddau Gyngor cyn rhyddhau ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus.

Rhoi hawliau dirprwyedig i wneud man newidiadau cyn cyflwyno'r ddogfen Hoff Strategaeth drafft i'r pwyllgorau perthnasol.